



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYLLID PONTIO AR GYFER
DYSGWYR YM MLWYDDYN
11 A DYSGWYR YM
MLWYDDYN 12 A 13 SY’N
ASTUDIO SAFON UWCH

Nodyn Cyfarwyddyd 2020/21

Fersiwn 1: Mai 2021

Cyllid Pontio - Canllawiau 2020/21

Y cefndir

Dyrannwyd £8.5m i Sefydliadau Addysg Bellach a chweched dosbarth ysgolion i ddarparu cymorth pontio i ddysgwyr ym mlwyddyn 11, a dysgwyr ym mlwyddyn 12 a 13 sy'n astudio cymwysterau UG/U2 sy'n trosglwyddo i'r camau nesaf yn eu taith addysgol. Darparwyd yr arian ychwanegol hwn i gydnabod y tarfu a fu ar addysg dysgwyr yn ystod y pandemig. O'r herwydd, efallai y bydd angen cymorth ac arweiniad pellach ar ddysgwyr er mwyn trosglwyddo'n llwyddiannus i gam nesaf eu dysgu neu i brentisiaethau, hyfforddiant a'r gweithle.

Nod

Nod y cyllid yw sicrhau:

- bod dysgwyr ym mlwyddyn 11 sydd wedi gwneud cais / sy'n ystyried gwneud cais i goleg/chweched dosbarth ar gyfer mis Medi 2021 yn cael cynnig y cyfle i ymgysylltu â'r coleg/chweched dosbarth drwy gydol tymor yr haf er mwyn sicrhau pontio mor llyfn â phosibl;
- bod dysgwyr sydd ym mlwyddyn 12, sy'n astudio lefelau UG, yn cael cymorth ychwanegol ar gyfer eu hastudiaethau UG am weddill y flwyddyn academaidd a chymorth i baratoi ar gyfer U2;
- bod dysgwyr sydd ym mlwyddyn 13, sy'n astudio lefel U2, yn cael cymorth ychwanegol ar gyfer eu hastudiaethau U2 am weddill y flwyddyn academaidd a chymorth i baratoi ar gyfer cam nesaf eu llwybr academaidd neu alwedigaethol.

Dyraniadau

Dyrannwyd y cyllid i awdurdodau lleol a cholegau yn seiliedig ar nifer y dysgwyr ym mlynnyddoedd 12 a 13.

Ar gyfer ysgolion heb chweched dosbarth, cyfrifoldeb y chweched dosbarth neu'r coleg AB sy'n derbyn y dysgwyr yw cysylltu â'r ysgolion i gael mynediad i'r dysgwyr er mwyn hyrwyddo a chyflwyno gweithgarwch pontio.

Gall ysgolion a cholegau ddefnyddio'r cyllid yn hyblyg i gefnogi dysgwyr sy'n pontio o flwyddyn 11 i flwyddyn 12, blwyddyn 12 i 13 a blwyddyn 13 i addysg bellach neu uwch neu gyflogaeth. Mae'r canllawiau'n rhoi rhai enghreifftiau o weithgarwch cymwys.

Mae ysgolion arbennig wedi cael eu cynnwys yng nghyfanswm y dyraniadau. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr ôl-16 mewn UC'Dau neu EOTAS yn gymharol isel, felly nid oes dyraniadau penodol wedi deillio gan Lywodraeth Cymru - mater i ALLau yw defnyddio'r dyraniadau'n hyblyg i gefnogi'r dysgwyr hyn.

Gellir defnyddio'r cyllid newydd hwn hefyd i gefnogi dysgwyr yn hyblyg drwy broses y graddau a bennir gan ganolfannau a throsglwyddo i'r camau nesaf, gan gynnwys

galluogi gweithredu'r broses apelio yn effeithlon i gefnogi dysgwyr ac unwaith eto mater i ALLau a cholegau yw defnyddio'r dyraniadau'n hyblyg i gefnogi'r dysgwyr hyn.

Meini Prawf

Dylid cynnig ymgysylltiad dwy ffordd i ddysgwyr ym mlwyddyn 11 â'u chweched dosbarth neu goleg yn y dyfodol drwy unrhyw un neu bob un o'r canlynol:

1. Digwyddiadau agored rhithwir – gan gynnwys dulliau rhithwir o ddarparu cyngor ac arweiniad, cyfweiliadau / cynigion / derbyn lle
2. Digwyddiadau ymgysylltu rhwng ysgolion a cholegau lle mae colegau'n gweithio'n agos gydag ysgolion lleol i sicrhau bod dysgwyr sy'n debygol o fynychu'r coleg yn 2021/22 yn cael eu cynnwys cyn diwedd blwyddyn academaidd 2020/21
3. Digwyddiadau pontio ar y safle a/neu rithwir a allai gynnwys profion WEST cynnar, nodi anghenion o ran cymorth sgiliau cyn dechrau rhaglenni, a chyfleoedd i ddod i adnabod eu cyd-ddysgwyr drwy weithgareddau grŵp. Dylai darparwyr ystyried y canllawiau [ar gynulliadau dan do/awyr](#) agored wrth drefnu digwyddiadau pontio ar y safle.
4. Sesiynau cymorth sgiliau i roi cyfleoedd i ddysgwyr blwyddyn 11 fynychu coleg.
5. Annog dysgwyr i gael gfael ar adnoddau sy'n berthnasol i bwnc Safon Uwch a dyhead gyrfa'r dysgwr. Cofrestru'n gynnar i sicrhau dysgwyr bod eu lle mewn coleg/chweched dosbarth yn ddiogel gan gynnwys teithiau campws (rhithwir neu ar y campws yn dibynnu ar gyfyngiadau COVID)
6. Ymgysylltu â dysgwyr blwyddyn 12 presennol i gynnig anogaeth, dealltwriaeth a mentora pwnc-benodol
7. Darparu gweithgareddau addysgol – naill ai wyneb yn wyneb neu drwy dulliau dysgu cyfunol <https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/dysgu-a-sgiliau-ol-16/blwyddyn-11-pontio-i-addysg-a-sgiliau-ol-16>
8. Gweithgareddau haf ar gyfer academiâu chwaraeon, dysgwyr MAT ac unrhyw grwpiau eraill o ddysgwyr y nodwyd bod angen ymgysylltu penodol arnynt (gan ddibynnu ar gyfyngiadau COVID)
9. Cymorth llesiant a gweithgareddau datblygu dysgwyr megis gweithio mewn tîm, rheoli amser, sgiliau trefnu, gweledigaeth, sgiliau dinasyddion. Ymgysylltu â Gyrfa Cymru – cymorth i ddysgwyr i'w helpu i symud ymlaen i Hyfforddeiaethau, Prentisiaethau, Cyflogaeth¹. [Opsiyau yn 16 oed | Careers Wales \(llyw.cymru\)](#)
10. Sesiynau Sgiliau Astudio a gyflwynir gan brifysgolion lleol megis cymryd nodiadau, sgiliau ymchwil ac ati

Argymhellir hefyd bod ysgolion yn:

¹ Ar hyn o bryd, efallai y bydd dysgwyr yn cyfeirio at y rhaglen Haf Hwylus a ddarperir gan ddarparwyr Hyfforddeiaeth cymeradwy. Ar ôl cofrestru ar y rhaglen Haf Hwylus ni ddylai'r dysgwyr hyn fod yn gymwys i gael unrhyw gyllid pontio pellach.

1. Creu cynlluniau pontio syml i ddysgwyr gyda rhestrau o weithgareddau perthnasol i ddysgwyr weithio drwyddynt mewn amgylchedd dysgu cyfunol;
2. Darparu adnoddau pwnc-benodol i gefnogi pontio o B11 – B12 ac astudio Safon Uwch, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd gan Gonsortia Rhanbarthol a CBAC.

Yn ogystal, dylai colegau/ysgolion ymgysylltu â Gŵyl Eich Dyfodol Llywodraeth Cymru a defnyddio hynny fel llwyfan i gynnig cynnwys pwnc digidol neu wyneb yn wyneb perthnasol i ddysgwyr.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 12 sy'n ymgymryd â chymwysterau UG, dylai colegau ac ysgolion gynnig unrhyw un neu bob un o'r canlynol:

1. Darparu hyfforddiant ac arweiniad byw i helpu dysgwyr i ddefnyddio e-adnoddau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u datblygu neu adnoddau mwy pwrpasol a ddatblygwyd gan y coleg/chweched dosbarth.
2. Sicrhau bod yr holl ddysgwyr UG presennol yn cael cyfweiliad personol gyda staff/tiwtor i nodi'r canlynol:
 - a. Eu Dewisiadau U2
 - b. Bylchau mewn dysgu
 - c. Eu dyhead gyrfaol
 - d. Eu llesiant
 - e. Gwaith paratoi ar gyfer U2
3. Darparu mynediad at adnoddau a chymorth i ddysgwyr ddechrau ysgrifennu eu datganiad personol/ neu CV ar gyfer cais UCAS i'r rhai sydd am gael gwaith neu brentisiaeth.
4. Sicrhau bod deunyddiau gwybodaeth ac arweiniad gyrfaoedd diduedd ar gael i bob dysgwr. Gallai hyn fod ar-lein, cyfweiliadau personol, gweithdai, digwyddiadau, siaradwyr diwydiant etc.
5. Darparu mynediad at wybodaeth a chymorth ar gyfer llesiant dysgwyr.
6. Darparu gweithgareddau addysgol – naill ai wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau dysgu cyfunol <https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/dysgu-a-sgiliau-ol-16/blwyddyn-11-pontio-i-addysg-a-sgiliau-ol-16>
7. Cefnogi dysgwyr i wneud cais am gyfleoedd Sefydliad Addysg Uwch / ôl-18 priodol. Er enghraifft:
 - a. 30 ysgol haf Ymddiriedolaeth Sutton <https://summerschools.suttontrust.com/>
 - b. Y Gronfa Symudedd Cymdeithasol <https://www.socialmobility.org.uk/programmes/>
 - c. LEDLET – Mentora'r gyfraith i ddysgwyr B12 <https://www.ledlet.org.uk/copy-of-summer-scheme>
8. Cynnal digwyddiadau ysgol/coleg/SAU ar y cyd, a allai hefyd gynnwys dysgwyr B11.
9. Lledaenu adnoddau rhaglen Seren i gefnogi pob dysgwr e.e. Gweminarau'r Brifysgol ar ysgrifennu datganiadau personol, sgiliau astudio, bywyd myfyrwyr

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/rhannu-ein-profiadau>

10. Annog a chefnogi myfyrwyr i gwblhau tasg Cynllun Cyrchfan y Dystysgrif Her Sgiliau i gefnogi eu gwaith cynllunio yn y dyfodol ac atgyfnerthu eu gweledigaeth ar gyfer blwyddyn 13.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 13 sy'n ymgymryd â chymwysterau U2, dylai colegau ac ysgolion gynnig unrhyw un neu bob un o'r canlynol:

1. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfweiliad personol gyda staff/tiwtor i nodi llwybr bwriadedig y dysgwyr, ac yna;
2. Dylai pob dysgwr U2 sy'n symud ymlaen neu sydd â diddordeb mewn symud ymlaen i'r Brifysgol gael ei gyfeirio at e-adnoddau a grëwyd ac a ddarperir gan Brifysgolion Cymru drwy openlearn.com/barod-ar-gyfer-prifysgol. Lle mae angen cymorth dylai'r coleg/ysgol ddarparu'r cymorth hwnnw lle bo'n briodol drwy, er enghraifft, gefnogi'r dysgwr i gynllunio ei astudiaeth neu diwtora.
3. Dylai dysgwyr U2 nad ydynt yn debygol o fynychu'r brifysgol drafod gyda staff/tiwtor i nodi'r canlynol:
 - i. Eu dyheadau addysg bellach (lefel 4, prentisiaeth, arall)
 - ii. Eu dyhead gyrfaol
 - iii. Eu llesiant
4. Sicrhau bod pob dysgwr nad yw'n debygol o fynychu'r brifysgol yn cael mynediad at adnoddau a chymorth i ddechrau ysgrifennu ei ddatganiad personol/ neu CV ar gyfer cyflogaeth neu brentisiaeth yn y dyfodol.
5. Ar gyfer dysgwyr coleg, gwnewch gysylltiadau â'r Swyddfa Gyflogaeth.
6. Dylid ystyried rhaglen bontio Rhydgrawnt B13 – a ddarperir gan Brifysgol Rhydychen fel nodwedd o raglen Seren
7. Cynnig cefnogaeth gyfannol i ddysgwyr gan gynnwys cynllunio ariannol / gweithdai CV / cyflogaeth / cyllidebu / sgiliau cyfweld / byw'n annibynnol – byw ar gyllideb
8. Darparu cymorth iechyd meddwl/lles, gan gynnwys strategaethau i helpu dysgwyr i symud ymlaen i'r cam nesaf.

Dylai darparwyr ystyried canllawiau covid-19 cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau [dan do ac awyr agored](#) wedi'u trefnu wrth gynllunio unrhyw ddigwyddiadau ar y safle.

Monitro

Ar ôl cwblhau unrhyw un o'r rhaglenni pontio, gallai dysgwyr dderbyn tystysgrif neu fathodyn digidol i ddangos eu bod wedi cwblhau.

Ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 11, dylai'r tabl canlynol gael ei gwblhau gan bob awdurdod lleol/coleg a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.

Cyfanswm y garfan yr ymgysylltwyd â hwy		
Math o gyfathrebu 2 ffordd	Nifer y dysgwyr unigryw	% y garfan gyfan yr ymgysylltwyd â hwy
Digwyddiad Agored Rhithwir		
Digwyddiad pontio ar y safle		
Sesiwn cymorth sgiliau		
Cofrestru'n gynnar gyda thaith campws		
Academiau chwaraeon haf		
Digwyddiadau ymgysylltu ag ysgolion		
Arall (rhowch fanylion):		
Arall (rhowch fanylion):		

Ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 12, dylai'r tabl canlynol gael ei gwblhau gan bob awdurdod lleol/coleg a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.

Cyfanswm y garfan yr ymgysylltwyd â hwy		
Math o gyfathrebu 2 ffordd	Nifer y dysgwyr unigryw	% y garfan gyfan yr ymgysylltwyd â hwy
Cyfweliad personol		
Coetsio		
Mynediad at adnoddau		
Cymorth UCAS/CV		
Cyngor gyrfaoedd		
Cymorth llesiant		
Arall (rhowch fanylion):		
Arall (rhowch fanylion):		

Ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 13, dylai'r tabl canlynol gael ei gwblhau gan bob awdurdod lleol/coleg a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.

Cyfanswm y garfan yr ymgysylltwyd â hwy		
Math o gyfathrebu 2 ffordd	Nifer y dysgwyr unigryw	% y garfan gyfan yr ymgysylltwyd â hwy
Cyfweliad personol		

Coetsio		
Mynediad at adnoddau		
Cymorth UCAS/CV		
Cyngor gyrfaoedd		
Pontio Rhydgrawnt neu Seren		
Arall (rhowch fanylion):		
Arall (rhowch fanylion):		

Amserlen

Dyma amserlen arfaethedig:

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad
Cymorth ychwanegol a gynigir i ddysgwyr blwyddyn 11, 12 a 13	Gweithlu'r Ysgol/Coleg	Ebrill 2021 – Dechrau Blwyddyn Academaidd 2021/22
Dychwelyd ffurflenni Monitro i Lywodraeth Cymru	Awdurdod Lleol/Coleg	Hydref 2021
Templed a chanllawiau ar gyfer hunanwerthuso a rennir gan Lywodraeth Cymru		Canol Mehefin
Gwerthusiad o'r hyn a wnaethoch, pa mor dda yr oedd yn gweithio, pa mor ymgysylltiedig oedd y dysgwyr, adborth dysgwyr, unrhyw rwystrau i gyflawni'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud?	Awdurdod Lleol/Coleg	Hydref 2021
Datblygu astudiaethau achos yn seiliedig ar weithgarwch a gynhaliwyd	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda detholiad o ysgolion a cholegau i ddatblygu'r rhain	Gorffennaf-Rhagfyr 2021